

Pembrolizumab ar gyfer canser wrotheliol PD-L1-positif sy'n ddatblygedig yn lleol neu fetastatig heb ei drin pan fydd cisplatin yn anaddas

13 Mehefin 2018

24 Gorffennaf 2018

Mae pembrolizumab (Keytruda) ar gael drwy'r [Gronfa Cyffuriau Canser](#). Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer carcinoma wrotheliol sy'n ddatblygedig yn lleol neu fetastatig heb ei drin mewn oedolion os:

- nad ydynt yn gallu cael cemotherapi sy'n cynnwys cisplatin
- mae eu tiwmor yn dangos PD-L1 (sgôr bositif gyfunol o 10 o leiaf) a
- caiff pembrolizumab ei atal ar ôl 2 flynedd o driniaeth barhaus neu'n gynt os yw'r afiechyd wedi datblygu.

Mae mwy o dystiolaeth ar pembrolizumab yn cael ei chasglu hyd at fis Tachwedd 2019. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymhell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddarar'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael pembrolizumab ond rydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Action Bladder Cancer UK](#), 0300 302 0085
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Fight Bladder Cancer](#), 01844 351621
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2971-9